**Awdurdod Cyllid Cymru**
**Welsh Revenue Authority**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost : SeneddCyllid@senedd.cymru

22 Mai 2020

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn ag amseriad Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer 2019-20.

Cyn pandemig COVID-19, fy mwriad oedd cael yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon wedi'i osod i'r Senedd a'i gyhoeddi cyn toriad yr Haf. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, rwyf wedi myfyrio ar yr amserlen hon ac rwy'n awr yn rhannu fy nghynigion diwygiedig â chi.

Fel swyddog cyfrifyddu ACC, mae dyletswyddau penodol wedi'u gosod arnaf o ran paratoi'r cyfrifon. Yn benodol, mae'n ofynnol i mi:

- gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol; datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ("y FReM"), a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, fel cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'm bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn.

Rwy'n cymryd y dyletswyddau hyn o ddifrif ac yn bwriadu eu bodloni, fodd bynnag, bydd angen i fformat ac amseriad yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon amrywio rywfaint eleni. Mae COVID-19 wedi golygu ailgyfeirio personél allweddol ACC i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig; yn benodol, aelodau allweddol o'm tîm sy'n paratoi ac yn dadansoddi data perfformiad. O ganlyniad, ni all ACC gynhyrchu ei adroddiad ar berfformiad yn ôl yr amserlen a fwriadwyd yn wreiddiol.

O dan yr amgylchiadau, rwyf wedi ceisio canfod ateb a fydd yn fy ngalluogi i fodloni'r amryw gofynion a sicrhau ein bod yn adrodd mewn modd cwbl agored a thryloyw.

Yr hyn sy'n allweddol ar gyfer gwneud hyn yw gwyro rhyw ychydig oddi wrth y cyfarwyddyd Gweinidogol i gydymffurfio â'r FReM a chyhoeddi un Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn hytrach, rwy'n bwriadu cyhoeddi Adroddiad Blynyddol/adroddiad ar berfformiad ar wahân i'n hadroddiad atebolrwydd a'n datganiadau ariannol. Bydd y ddau yn dal i gael eu paratoi a'u cyhoeddi o fewn y flwyddyn galendr bresennol.

Rwyf wedi bod yn trafod y dull hwn gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a bydd yn golygu y bydd ACC yn cyhoeddi ac yn gosod ei:

- adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol cyn toriad yr Haf yn unol â gofynion statudol a holl ofynion eraill y FReM;
- Adroddiad Blynyddol ac adroddiad ar berfformiad yn yr Hydref, unwaith eto gan gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a gofynion eraill.

Mae'r dull hefyd wedi'i drafod yn llawn gydag Archwilio Cymru (ein harchwilwyr allanol) ac maent wedi cadarnhau y byddant yn gweithio gyda ni ar yr amserlen rhywfaint yn ddiwygiedig hon er mwyn cwblhau eu harchwiliad o ACC.  Mae prif elfen yr archwiliad yn ymwneud â'n hadroddiad atebolrwydd a'n datganiadau ariannol lle nad oes newid i amseriad y cyhoeddi. Bydd Archwilio Cymru hefyd yn ystyried ein Hadroddiad Blynyddol a'n hadroddiad ar berfformiad yn yr Hydref er mwyn sicrhau cysondeb â'n hadroddiad atebolrwydd a'n datganiadau ariannol.

Dros yr wythnosau nesaf byddaf yn cadarnhau'r amserlen ar gyfer gosod a chyhoeddi'r dogfennau hyn ac yn eich hysbysu ynglŷn â'r manylion hyn. Yn y cyfamser, rwy'n hapus iawn i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach neu i drafod unrhyw bwyntiau a godwyd yn fy llythyr.

Rydw i hefyd wedi anfon y llythyr yma at Gadeirydd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir

**Dyfed Alsop**
Prif Weithredwr / Chief Executive

Cc

YP/Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru
Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru
Richard Harries, Archwilio Cymru
Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid (dros dro), Awdurdod Cyllid Cymru

Awdurdod Cyllid Cymru, Canolfan QED, Prif Rhodfa, Ystad Diwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5YR llyw.cymru/acc 03000 254 000
Welsh Revenue Authority, QED Centre, Main Avenue, Treforest Industrial Estate, Pontypridd, CF37 5YR gov.wales/wra 03000 254 000